# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffộn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**www.moldtowncouncil.org.uk**

**Aelodau'r Cyngor**

24 Mawrth 2023

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar ddydd Mercher 29th March 2023** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug. Bydd ar gael hefyd drwy fideo-gyndaledda fel cyfarfod hybrid; gweler y ddolen isod.

Yn ddiffuant,

Clerc a Swyddog Cyllid y Dref

## AGENDA

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Ar ddechrau'r cyfarfod, mae croeso i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r Cynghorwyr am chwarter awr neu sôn am unrhyw faterion sydd o bwys iddynt. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu crybwyll, yna bydd y Cyfarfod y Cyngor yn dechrau am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O FUDD**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

## 4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2023 (ynghlwm).

4.2 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 (ynghlwm).

4.3 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adeiladau a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 (ynghlwm).

4.4 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2023 (ynghlwm).

4.5 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cymorth Ariannol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023 (ynghlwm).

## 5. TESCO (YR WYDDGRUG) – GWAHARDD POBL IFANC

Trafod e-bost a anfonwyd at y Cynghorydd Bithell gan aelod o'r cyhoedd (ynghlwm).

## 6. ADRODDIADAU SWYDDOGION - ADRODDIAD Y SWYDDOG DIGWYDDIADAU

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned (ynghlwm).

## 7. ADOLYGIAD CITTASLOW

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyfarfod y Bwrdd (ynghlwm).

Gofynnwyd i Glerc y Dref ofyn am gael ei henwebu yn Gyfarwyddwr Cittaslow y DU, sy'n weithiau'n haws na phenodi cynghorwyr yn Gyfarwyddwyr, ond nid yw hynny'n orfodol.

**Cynnig:** Enwebu Clerc y Dref neu gynghorydd, yn Gyfarwyddwr Cittaslow y DU.

## 8. Y GRŴP ADEILADAU

Ar sail argymhellion y Pwyllgor Adeiladau, mae'r canlynol yn cael eu rhoi gerbron y Cyngor Llawn;

**Cysylltu â** dau bensaer er mwyn cael ymateb cychwynnol ynghylch y costau er mwyn ystyried yr opsiynau yn Neuadd y Dref ar gyfer Cyngor y Dref a'i staff, a phwyso a mesur y diddordeb.

**Ystyried** cyflogi rheolwr prosiect.

**Anfon adroddiad** at Gyngor Sir y Fflint sy'n crynhoi bod y pwyllgor wedi cyfarfod, ei fod yn gwneud cais am grantiau ac yn cyfarwyddo rhywun i lunio briff gyda'r bwriad o gael cymorth gyda'r costau ar gyfer neuadd y dref.

**Gofyn caniatâd** gan Gyngor Sir y Fflint er mwyn i Gyngor Tref yr Wyddgrug symud i lawr y grisiau yn Neuadd y Dref, cyn gynted ag y bo modd.

**Cynnal cyfarfodydd** bob mis; sef 2 wythnos ar ôl bob cyfarfod o Gyngor y Dref.

## 9. ADOLYGIAD WORKNEST A WURKPLACE (I'W BENDERFYNU ERBYN MAI 2023)

Gan fod y contract â Wurkplace yn dod i ben ym mis Mai 2023, gofynnir i'r Cyngor ystyried y dyfynbrisiau, yr wybodaeth a'r adborth ynghlwm er mwyn dod i benderfyniad ym mis Ebrill neu fis Mai 2023.

## 10. CARDIAU RHAG-DALU EQUALS

Cytuno i gael cardiau Mastercard ar gyfer y Clerc, y Swyddog Digwyddiadau, Arolygydd y Mynwent, y Swyddog Prosiect a'r Gofalwr (gweler yr adroddiad).

## 11. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Nodi'r addroddiad ynghlwm.

## 12. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

## 13. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

Ar sail argymhellion y Panel Cymorth Ariannol, mae'r canlynol yn cael eu rhoi gerbron y Cyngor Llawn;

**Dyrannu** £100 i Eisteddfod Llangollen.

**Dyrannu** £300 i Ambiwlans Awyr Cymru.

**Gwrthod** Suitcase Theatre oherwydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn gynharach yn y flwyddyn ariannol.

**Gwrthod** Sefydliad y Galon Prydain oherwydd mai elusen genedlaethol ydynt.

**Gwrthod** Macmillan oherwydd mai elusen genedlaethol ydynt.

**Trefnu cyfarfod** â Chanolfan Daniel Owen ynghylch eu cyfrifon, a thrafod y modd y mae'r cyhoedd yn defnyddio'r toiledau yn ogystal â chyflwr y toiledau.

## 14. ARGYMHELLION Y PWYLLGOR POLISI AC ARCHWILIO

Ar sail argymhellion y Pwyllgor Polisi ac Archwilio, mae'r canlynol yn cael eu rhoi gerbron y Cyngor Llawn;

### ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL 2022-2023
**Derbyn** yr Adroddiad Archwilio Mewnol a **nodi** ei ganfyddiadau.

**POLISÏAU**
Canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Polisi Bioamrywiaeth a'r Cynllun Hyfforddi, y mae'r ddau ohonynt wedi bod yn statudol ers 2019 a 2022 yn ôl eu trefn.

**15. CYFRIFON / TALIADAU**

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 11, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

**16. LWFANSAU AELOADAU**

Nid ydym wedi cael penderfyniad gan CThEM ynghylch trethu'r Lwfansau Aelodau, er bod Un Llais Cymru wedi sicrhau'r clercod, 6 mis yn ôl, bod y penderfyniad ar fin cael ei wneud ac iddynt gael gwybod o lygad y ffynnon y byddai trethu lwfansau yn dod i ben. Felly, dylai'r aelodau wybod bod angen iddynt ddatgan eu lwfansau eu hunain pan maent yn llenwi eu ffurflen dreth.

**17. ASESIAD RISG ARIANNOL**

Nodi a chymeradwyo'r Asesiad Risg Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

**18. SWYDDI GWAG**

I nodi'r sefyllfa ynghylch cynrychiolwyr ar gyrff allanol, Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor.

Pwyllgor Cynllunio - un swydd wag.

Budget Group - un swydd wag.

Pwyllgor Polisi ac Archwilio – un swydd wag.

**19. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD.**

**20. RHAN 2 - CYFRIFO'R PRAESEPT**

Rhoi eglurhad llawn a chryno'r cyngor ynghylch canran y praesept.

**21. RHAN 2 – MATERION STAFF**

Trafod materion ynghylch staff.

**SYLWER:**

Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond heb gymryd rhan) drwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**https://us02web.zoom.us/j/88907860545?pwd=aEdsdmw0NEozMFNkczE3ZWh4YlprUT09**

**Cyfeirnod y Cyfarfod: 889 0786 0545**
**Cod: 398198**